Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Dangosyddion perfformiad iechyd yng Nghymru

## Briff Ymchwil

Medi 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6321**
E-bost: **Rebekah.James@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Dangosyddion perfformiad iechyd yng Nghymru

## Briff Ymchwil

Medi 2019

**Awduron:**
Rebekah James & Holly Kings

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r briff hwn yn nodi'r targedau a lle y gellir dod o hyd i ystadegau ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer iechyd yng Nghymru.

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Holly King gan Gyngor Ymchwil y Biowyddorau Prydain, a'i galluogodd i gwblhau'r papur hwn.

# Cynnwys

**Amser a dreuliwyd mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys** ........................................ **1**

**Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth** ............................ **2**

**Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi** ................ **3**

**Amseroedd amser canser** ........................................................... **4**

**Amseroedd ymateb ambiwlansys** .................................................. **6**

**Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal** ......................................................... **7**

**Dangosyddion perfformiad iechyd yng Nghymru:** Briff Ymchwil

# Amser a dreuliwyd mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Mae Fframwaith Cyflenwi a Chanllawiau Adrodd GIG Cymru 2019-2020 yn cael ei ddefnyddio i fesur darpariaeth yn y GIG yng Nghymru trwy gydol 2019-20.

**Y targedau o ran yr amser a dreuliwyd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys:**

- 95 y cant o gleifion i dreulio llai na 4 awr ym mhob adran gofal brys mawr a bach o'u cyrraedd hyd nes eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau; a
- Dim claf i dreulio 12 awr neu fwy ym mhob adran gofal brys mawr a bach ysbytai o'u cyrraedd hyd nes eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi **adroddiadau misol s**y'n crynhoi data ar weithgaredd a pherfformiad GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau tymor hir. Mae gwybodaeth am **yr amser a dreuliwyd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys** wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.
- Mae'r data hyn hefyd ar gael ar **ddangosfwrdd crynodeb gweithgaredd a pherfformiad y GIG,** sef offeryn ar-lein sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau lle gall defnyddwyr ddefnyddio ac astudio'r data.
- Cyhoeddir data ar yr amser a dreuliwyd yn aros yn adrannau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru bob mis ar wefan **StatsCymru.** Mae ffigurau ar gael sy'n dangos perfformiad yn erbyn targedau amser aros o 4, 8 a 12 awr.
- Mae rhagor o wybodaeth (gan gynnwys categorïau adrannau gofal brys yng Nghymru) ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru ***Amser a dreuliwyd yn adrannau damweiniau ac achosion brys GIG: Adroddiad ansawdd.***

# Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

**Yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth** yw'r cyfnod o amser rhwng atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty hyd nes cael triniaeth yn GIG Cymru. Mae'r amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cwmpasu'r amser a arhosir o'r atgyfeiriad i'r ysbyty hyd nes cael triniaeth yn GIG Cymru, ac mae'n cynnwys yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau ysbyty, profion, sganiau neu weithdrefnau eraill y gallai fod eu hangen cyn triniaeth.

> Mae Fframwaith Cyflenwi a Chanllawiau Adrodd GIG Cymru 2019-2020 yn cael ei ddefnyddio i fesur darpariaeth yn y GIG yng Nghymru trwy gydol 2019-20.
>
> **Mae'r targedau sy'n ymwneud ag amseroedd Atgyfeirio a Thriniaeth yng Nghymru fel a ganlyn:**
>
> - 95 y cant o gleifion i aros llai na 26 wythnos o'r atgyfeiriad hyd nes y driniaeth; a
> - Dim cleifion i aros mwy na 36 wythnos am driniaeth.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi **adroddiadau misol** sy'n crynhoi data ar weithgaredd a pherfformiad GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau tymor hir. Mae gwybodaeth am **amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth** wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.
- Mae'r data hyn hefyd ar gael ar **ddangosfwrdd crynodeb gweithgaredd a pherfformiad y GIG**, sef offeryn ar-lein sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau lle gall defnyddwyr ddefnyddio ac astudio'r data.
- Mae ystadegau misol manwl ar amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yng Nghymru ar gael ar wefan **StatsCymru.**
- Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, **Amseroedd atgyfeiriad am driniaeth: Adroddiad ansawdd**



**Dangosyddion perfformiad iechyd yng Nghymru:** Briff Ymchwil

# Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi

> Mae Fframwaith Cyflenwi a Chanllawiau Adrodd GIG Cymru 2019-2020 yn cael ei ddefnyddio i fesur darpariaeth yn y GIG yng Nghymru trwy gydol 2019-20.
>
> **Mae gan amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi y targedau a ganlyn (safonau gweithredol ar gyfer yr amseroedd aros hwyaf):**
>
> - Yr amser aros hwyaf ar gyfer profion diagnostig penodol yw 8 wythnos; ac
> - Yr amser aros hwyaf am wasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi **adroddiadau misol** sy'n crynhoi data ar weithgaredd a pherfformiad GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau tymor hir. Mae gwybodaeth am **amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi** wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.
- Mae'r data hyn hefyd ar gael ar **ddangosfwrdd crynodeb gweithgaredd a pherfformiad y GIG**, sef offeryn ar-lein sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau lle gall defnyddwyr ddefnyddio ac astudio'r data.
- Mae ystadegau sy'n dangos data misol ynghylch nifer y bobl sy'n aros a'r amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi penodol ar gael ar wefan **StatsCymru.**
- Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru ***Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi GIG: adroddiad ansawdd,*** sy'n darparu manylion pa wasanaethau diagnostig a therapi sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau amseroedd aros.

# Amseroedd amser canser

Ym mis Tachwedd 2018, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, **gyhoeddi** y byddai llwybr canser sengl newydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru yn 2019. Bydd y llwybr canser sengl yn disodli'r llwybrau brys ar gyfer achosion amheuaeth o ganser ac achosion lle ceir amheuaeth o ganser ond nad ydynt yn rhai brys.

Bydd y llwybr canser sengl yn mesur amser aros cleifion ar y ddau lwybr traddodiadol ond bydd amser aros claf yn dechrau o'r pwynt pan fo amheuaeth o ganser yn hytrach na'r pwynt pan fydd diagnosis yn cael ei roi. Mae'r llwybr sengl ar gyfer yr holl gleifion sydd â chanser, p'un a ydynt yn cael eu hatgyfeirio gan y meddyg teulu neu'n cael eu trin fel achos brys, canfyddiad achlysurol, sgrinio, neu yn ystod apwyntiad o fewn gofal eilaidd.

Dechreuodd Cymru gyhoeddi adroddiadau cyhoeddus ar y llwybr canser sengl o fis Mehefin 2019. Parheir i adrodd ar lwybrau brys traddodiadol ar gyfer achosion amheuaeth o ganser ac achosion lle ceir amheuaeth o ganser ond nad ydynt yn rhai brys, a hynny ochr yn ochr â'r llwybr canser sengl. Dywed Llywodraeth Cymru fod hyn er mwyn sicrhau'r tryloywder mwyaf posibl ac i ganiatáu cymhariaeth yn erbyn y targedau traddodiadol. Ar adeg briodol yn y dyfodol, disgwylir y ceir trosglwyddiad i adrodd ar y llwybr newydd yn unig.

Mae'r llwybr newydd yn dechrau'r cloc amser aros yn gynharach, a'i nod yw mesur profiad y claf yn fwy cywir. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, er bod disgwylir gweld ffigurau canrannol is ar y llwybr newydd, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod pobl yn aros am amser hwy.





Mae Fframwaith Cyflenwi a Chanllawiau Adrodd GIG Cymru 2019-2020 yn cael ei ddefnyddio i fesur darpariaeth yn y GIG yng Nghymru trwy gydol 2019-20.

Nid oes targed penodol wedi'i bennu eto ar gyfer y **llwybr canser sengl**, ond dylai cleifion ddechrau eu triniaeth gyntaf cyn pen 62 diwrnod o'r adeg pan amheuir bod ganddynt ganser. O dan Fframwaith Cyflenwi 2019-20, disgwylir gwelliant dros 12 mis.

**Dyma'r targedau traddodiadol sy'n ymwneud ag amseroedd aros canser:**

- Bod o leiaf 95% o gleifion a gaiff ddiagnosis newydd o ganser, drwy'r llwybrau amheuaeth canser brys, yn cael triniaeth o fewn 62 diwrnod i gael eu hatgyfeirio; a
- Bod o leiaf 98% o gleifion a gaiff ddiagnosis newydd o ganser, nid drwy'r llwybrau brys, yn cael triniaeth o fewn 31 diwrnod i gael diagnosis (waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio).

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi **adroddiadau misol** sy'n crynhoi data ar weithgaredd a pherfformiad GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau tymor hir. Mae gwybodaeth am **amseroedd aros mewn achosion canser** wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.
- Mae'r data hyn hefyd ar gael ar **ddangosfwrdd crynodeb gweithgaredd a pherfformiad y GIG**, sef offeryn ar-lein sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau lle gall defnyddwyr ddefnyddio ac astudio'r data.
- **Mae data misol a chwarterol ynghylch amseroedd aros canser yng Nghymru ar gael ar wefan StatsCymru. Ar hyn o bryd, mae ffigurau llwybr canser sengl yn cael eu hadrodd yn fisol.**
- **Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru** yw Cofrestrfa Genedlaethol Canser Cymru a'i phrif rôl yw cofnodi, storio ac adrodd ar bob achos o ganser ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru ble bynnag y cânt eu trin. Mae rhagor o wybodaeth, ynghyd â data, ar gael ar **wefan yr Uned**.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, ***Amser aros canser GIG: Adroddiad ansawdd.***

## Amseroedd ymateb ambiwlansys

Yn dilyn **cyfnod peilot** ac adroddiad gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan y **Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys,** gweithredwyd model ymateb clinigol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru yn **Chwefror 2017.**

> **Dyma'r categorïau galwadau a'r targedau ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlans:**
>
> **Coch**: Yn peryglu bywyd ar unwaith (mae rhywun mewn perygl y byddent yn marw ar unwaith, e.e. ataliad ar y galon). Mae targed Cymru gyfan i 65 y cant o'r galwadau hyn gael ymateb o fewn 8 munud.
>
> **Ambr**: Difrifol, ond nid yw'n peryglu bywyd ar unwaith (cleifion y bydd angen triniaeth arnynt yn aml yn y fan a'r lle, ac efallai y bydd angen mynd â nhw i'r ysbyty wedyn). Nid oes targed amser ar gyfer galwadau ambr.
>
> **Gwyrdd**: Di-frys (yn aml gellir eu rheoli gan wasanaethau iechyd eraill gydag asesiad clinigol dros y ffôn). Nid oes targed amser swyddogol ar gyfer galwadau gwyrdd.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi **adroddiadau misol** sy'n crynhoi data ar weithgaredd a pherfformiad GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau tymor hir. Mae gwybodaeth am **amseroedd ymateb gwasanaethau ambiwlans** wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.
- Mae'r data hyn hefyd ar gael ar **ddangosfwrdd crynodeb gweithgaredd a pherfformiad y GIG**, sef offeryn ar-lein sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau lle gall defnyddwyr ddefnyddio ac astudio'r data.
- Mae tablau sy'n cynnwys mwy o fanylion am wasanaethau ambiwlans brys, gan gynnwys perfformiad 'coch' fesul munud, ar gael ar **StatsCymru.**
- Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys manylion y newidiadau i amseroedd ymateb ambiwlans ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, ***Gwasanaethau ambiwlans: adroddiad ansawdd.***



**Dangosyddion perfformiad iechyd yng Nghymru:** Briff Ymchwil

## Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal

> Defnyddir y term 'oedi wrth drosglwyddo gofal' pan fydd cleifion mewn ysbytai sy'n barod i symud ymlaen i leoliad gofal mwy priodol yn cael eu hatal rhag gwneud hynny am un rheswm neu fwy.

Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi **adroddiadau misol** sy'n crynhoi data ar weithgaredd a pherfformiad GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau tymor hir. Mae gwybodaeth am **oedi wrth drosglwyddo gofal** wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.

- Mae'r data hyn hefyd ar gael ar **ddangosfwrdd crynodeb gweithgaredd a pherfformiad y GIG**, sef offeryn ar-lein sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau lle gall defnyddwyr ddefnyddio ac astudio'r data.
- Mae data misol ynghylch oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru ar gael ar wefan **StatsCymru.**
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru **Oedi wrth drosglwyddo gofal: adroddiad ansawdd**.